**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**13 Mai 2013**

**PEIRIANT YSGOL AC ESGYNLAWR (ALP)**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â darparu Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr (peiriannau ALP) yn ardal Llandudno pan fo eu hangen.

## Cyflwyniad

2 Erbyn hyn mae blwyddyn ariannol gyfan (2012/2013) wedi mynd heibio ers gostwng nifer y peiriannu ALP o bedwar i dri. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried effaith y gostyngiad yn benodol mewn perthynas ag adleoli'r peiriant ALP a oedd yn Llandudno.

## Cefndir

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Hydref 2010 penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu safon cyrraedd 30 munud ar gyfer y peiriannau ALP yng Ngogledd Cymru, a chanlyniad hyn fyddai gostwng nifer y peiriannau ALP yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o 4 i 3.

4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 19eg Mawrth 2012, gyda'r peiriant ALP hynaf ar fin dod i ddiwedd ei oes weithredol, penderfynodd yr Aelodau leoli'r tri pheiriant sydd ar ôl ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam.

## Y Sefyllfa Bresennol

5 Anfonwyd peiriant ALP allan ar 27 o adegau yn ardal Llandudno ers mabwysiadu'r safon cyrraedd 30 munud.

6 O blith y 27 o adegau, anfonwyd peiriant ALP allan fel rhan o Bresenoldeb Ragnodedig 25 o adegau. Mae'r system bresenoldeb ragnodedig yn rhan o rag-gynlluniau'r Gwasanaeth, ac yn ffordd o ddynodi adnoddau i eiddo yn seiliedig ar ystod o ffactorau, sy'n cynnwys lleoliad yr eiddo, y math o eiddo, ei uchder, y mynediad ato ayyb. Dyma'r broses beth bynnag yw'r digwyddiad, ac o ganlyniad i'r gwaith hwn mae gan y gweithredwr yn yr ystafell reoli sy'n ymdrin â'r alwad, restr adnoddau presenoldeb rhagnodedig ar gyfer anfon allan.

7 Hefyd gall rheolwr digwyddiad (IC) alw peiriant ALP allan yn uniongyrchol o'r digwyddiad ei hun. Gofynnodd rheolwr digwyddiad am beiriant ALP ar y ddwy adeg arall.

8 O blith y 27 o adegau, dychwelodd y peiriant ALP i'w orsaf gartref ar 23 o adegau cyn cyrraedd y digwyddiad gan nad oedd mo'i angen mwyach. Aeth y peiriant ALP at 4 o ddigwyddiadau, a'i ddefnyddio mewn 3.

9 O'r 4 o adegau hynny, cafodd 2 eu cyflawni o dan amodau goleuadau glas, ac ar y ddwy adeg hynny roedd y peiriant ALP yn bresennol mewn llai na 30 munud, sef safon yr Awdurdod. Dim ond mewn un o'r digwyddiadau hyn y cafodd y peiriant ALP ei ddefnyddio.

10 Roedd y ddau adeg arall wedi eu dynodi yn rhai nad oeddent yn argyfyngau, a chawsant eu cyflawni o dan amodau cyflymder arferol ar y ffordd oherwydd natur y cais, ac nid oeddent felly yn ddarostyngedig i safon yr Awdurdod. Ar y ddwy adeg hon, cynorthwyo'r awdurdod lleol i symud rwbel o le uchel yr oeddent.

11 Mae'r peiriant ALP yn y Rhyl yn dirwyn at ddiwedd ei oes ddefnyddiol, a'r bwriad yw cael peiriant yn ei le yn 2015. Mae'r broses gaffael ar gyfer cael un newydd yn mynd rhagddi, a bydd enillydd y broses dendro yn cael ei enwi yn ystod y 6 i 8 wythnos nesaf.

## Argymhelliad

12 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth.